AMGUEDDFA CYMRU

# O Ddafad i Ddefnydd

## Y Diwydiant Cartref | Y Ffatri Wlân

Daw gwlân o'r ddafad.

Mae defaid yn cael eu cneifio am eu gwlân. Gelwir y gwlân wedyn yn cnu.



**Cneifio gyda Gwellau Llaw**
Roedd y rhain yn debyg i sisyrnau mawr yn wreiddiol.

**Cneifio gyda pheiriant trydan**
Dyma broses debyg i siafio â pheiriant trydan.



Ar ôl cneifio mae angen didoli'r cnu. Daw'r gwlân gorau o ysgwydd neu lwynau'r ddafad.

Mae angen chwalu'r gwlân er mwyn ei agor a rhyddhau'r ffibrau rhyw ychydig cyn cribo.



**Chwalu'r gwlân â llaw**

**Chwalu'r gwlân gyda'r Chwalwr**
Dyma ddrwm mawr metel sy'n troi, a chanddo ddannedd llydan.



Mae'r broses o gribo'r gwlân yn datod y clymau a'i sythu yn barod i'w nyddu.



**Cribo'r gwlân â Chribau Llaw**
Roedd hyn yn creu un rholyn o wlân ar y tro, yn barod i'w nyddu.

**Cribo'r gwlân gyda'r Cribwr**
Dyma peiriant sy'n paratoi rhoilion diddiwedd o wlân ar gyfer nyddu.



Mae nyddu yn troi'r rholyn wlân yn edafedd cryf.



**Nyddu gan ddefnyddio'r Droell Fawr**
Dim ond un edafedd mae'r nyddwr yn ei greu ar y tro.

**Nyddu ar y Mul Nyddu**
Mae'r peiriant hwn yn nyddu 400 o edefion ar yr un pryd.




Mae gwehyddu yn troi'r edafedd yn frethyn.



**Gwehyddu ar Wydd Llaw**
Mae'r gwydd yn codi'r ystof wrth i'r gwehydd pwyso pedalau troed, ond rhaid basio'r anwe drwyddo ei hun bob tro.

**Gwehyddu ar wydd 'Dobcross'**
Mae'r peiriant yn codi'r ystof ac yn pasio'r anwe drwyddo ei hun.



Ar ôl creu'r darn o frethyn mae angen iddo gael ei olchi a'i sychu. Hefyd, mae sawl proses ar gyfer gorffen y brethyn, yn dibynnu ar bwrpas y darn gorffenedig.



**Golchi yn y Pandy**
Mae rhai mathau o frethyn yn cael eu curo, neu eu 'pannu' wrth eu golchi, er mwyn eu crebachu. Byddai'r brethyn yn cael ei sychu ar Ffrâm Ddeintur.

**Golchi ar beiriant golchi diwydiannol y Ffatri, sef y Peiriant Pannu**
Byddai'r brethyn yn cael ei sychu ar Flwch Deintur diwydiannol y Ffatri. Un esiampl o roi gorffen ar y brethyn yw ei wneud yn flewog ar y Peiriant Codi Ceden neu'r 'Moser Raiser'.



Wrth liwio glwân gallwch lliwio'r cnu neu'r edafedd i greu patrymau wrth wehyddu, neu gallwch liwio'r brethyn gorffenedig, os mai un lliw sydd ei angen.

**Lliwio drwy ddefnydio planhigion a llysiau i greu'r lliw.**

**Lliwio gan ddefnyddio lliwiau cemegol.**